



Coleg Gŵyr Abertawe  
Gower College Swansea

## POLISI DIOGELU PLANT AC OEDOLION AGORED I NIWED

<b>Dyddiad Cyhoeddi:</b>	<b>Mehefin 2021</b>
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	<b>Mehefin 2022</b>
<b>Amllder Adolygu:</b>	<b>12 mis</b>
<b>Cychwynnydd:</b>	<b>Anne Pitman Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr (Protocol Myfyrwyr)  Sarah King Cyfwrwyddwr AD (Protocol Staff)</b>
<b>Lleoliad y Polisi</b>	<b>BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies &amp; Procedures/Learner Services &amp; Support</b>
<b>Cymeradwywyd Gan:</b>	<b>Tîm Rheoli'r Coleg – 14 Hydref 2021</b>

Os hoffech chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, gael y ddogfen hon mewn print bras, sain, yn electronig neu yn Saesneg, e-bostiwch y Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr: [anne.pitman@coleggwyrabertawe.ac.uk](mailto:anne.pitman@coleggwyrabertawe.ac.uk)

## 1. Cyflwyniad

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i gymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles pob dysgwr a phrentis. Ein dyletswydd gyfreithiol a moesol fel coleg yw diogelu ac amddiffyn lles pob person ifanc ac oedolyn agored i niwed.

Mae gan ein polisi tair prif elfen:

- ataliadau trwy ddiwylliant, darlithoedd a chymorth bugeiliol i ddysgwyr/brentisiaid
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuan o gam-drin - gan fod ein cyswllt dyddiol â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn arsylwi arwyddion allanol o gam-drin
- cymorth i ddysgwyr sydd wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn berthnasol i **bob** aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob llywodraethwr sy'n gweithio mewn lleoliad addysgu'n gweithio. Gall cynorthwyr cymorth dysgu, gofawyr, staff cymorth busnes yn ogystal â darlithwyr, tiwtoriaid ac aseswyr fod yn bwynt cyswllt cyntaf i berson ifanc neu oedolyn agored i niwed ar gyfer datgeliadau.

## 2. Atal

Rydym yn cydnabod bod lefelau uchel o hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu yn effeithiol â gweithwyr proffesiynol dibynadwy yn helpu i ddiogelu dysgwyr/prentisiaid.

Bydd y Coleg yn:

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad yn agored gan wybod y bydd staff yn gwrandao arnynt
- Sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn gwybod bod gweithwyr o fewn y sefydliad y gallant droi atynt os oes ganddynt bryderon
- Cynnwys cyfleoedd a gweithgareddau ar berthnasoedd ac addysg rhywioldeb yn y cwricwlwm er mwyn darparu sgiliau i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed fel gallant ddiogel eu hunain rhag cam-drin a gwybod at bwy i droi am gymorth
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu pob ifanc ac oedolion i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant a sgiliau magu plant
- Meithrin perthnasoedd ag asiantaethau eraill a sicrhau atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth a sicrhau eu bod yn cael eu gwneud cyn i risgiau waethygu

- Magu ymagwedd ehangach mewn perthynas â lles a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.
- darparu mynediad i ddysgwyr, prentisiaid a staff at TogetherAll, sef gwasanaeth cymorth a gwybodaeth ar-lein a dros y ffôn ar gyfer iechyd meddwl a lles 24/7, a gaiff ei fonitro gan glinigwyr hyfforddedig.
- adolygu'n flynyddol yr holl bolisiau/trefniadau diogelu ac Atal gan ddefnyddio pecyn cymorth hunanasesu Cymunedau Diogel ac asesiad risg Prevent i ddatblygu cynllun gweithredu a adolygir bob tymor.
- dilyn prosesau recriwtio mwy diogel.

### 3. Gweithdrefnau

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn dilyn Canllawiau Diogelu Cymru a Lloegr sydd wedi'u cymeradwyo gan Fyrddau Partneriaeth Diogelu Plant. Bydd y coleg yn:

- sicrhau bod DSP wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol
- cydnabod rôl y DSP a threfnu cymorth a hyfforddiant. Bydd y DSP a'r Swyddogion Diogelu yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ar Ddiogelu ac Atal yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal dealltwriaeth o faterion penodol
- sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
  - enw a rôl y DSP, pwynt cyswllt yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
  - eu bod yn gyfrifol am adrodd am blant sydd mewn perygl i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu. Rhaid iddynt wneud hyn o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
  - sut i ymdrin â phryderon yn absenoldeb y DSP
- sicrhau bod pob aelod o staff yn effro i arwyddion y gam-drin ac esgeulustod ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwyr sy'n datgelu achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod
- sicrhau bod aelodau o staff sy'n aelodau cofrestredig o'r Cyngor Gweithlu Addysg yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol i aelodau cofrestredig o'r Cyngor Gweithlu Addysg a'r disgwyliad o fewn y Cod bod yr aelodau cofrestredig yn ystyried diogelwch a lles y dysgwyr yn eu gofal a'r cynnwys cysylltiedig
- sicrhau bod gan rieni/gofalwyr dealltwriaeth o gyfrifoldeb y coleg a staff o ran diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed trwy nodi ei rwymedigaethau yn y llyfryn ysgol/llawlyfr dysgwyr i brentisiaid
- darparu hyfforddiant diogelu ac Atal i bob aelod o staff fel eu bod yn:

- deall eu cyfrifoldebau personol
  - gwybod gweithdrefnau lleol cytunedig a'u dyletswydd i ymateb
  - ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeulustod
  - gwybod sut i gefnogi person ifanc sy'n datgelu achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod
  - deall y rôl y gall ymddygiadau ar-lein ei chwarae ym mhob un o'r uchod
- rhoi gwybod i dim gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, os:
    - oes plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd, nail ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
    - os yw plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)
  - gweithio i ddatblygu cysylltiadau defnyddiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl yr angen ar eu hymholiadau ynghylch materion diogelu plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiadau cychwynnol, cynadleddau diogelu plant, grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau
  - cadw cofnodion o bryderon am blant ac oedolion agored i niwed (gan nodi'r dyddiadau a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed os ad oes angen cyflwyno'r mater i'r awdurdod lleol ar unwaith
  - sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod yn cael eu cloi
  - cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu a diswyddo i staff ysgol: canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu
  - sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio yn cydymffurfio â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru a chanllawiau Cadw Plant yn Ddiogel yn Lloegr
  - dylai staff sy'n addysgu yng Nghymru ddarllen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a dylai staff sy'n addysgu yn Lloegr ddarllen Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg Rhan 1
  - dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwyllo polisi ac ymarfer Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed y Coleg.

#### 4. Cefnogi unigolion sydd mewn Perygl

Rydym yn cydnabod y gallai pobl ifanc/oedolion agored i niwed sydd mewn perygl gael eu heffeithio'n sylweddol gan unrhyw fath o gamdriniaeth neu drais.

Efallai mai amgylchedd sefydlog a diogel y Coleg yw'r unig amgylchedd diogel ym mywydau rhai pobl ifanc neu oedolion agored i niwed. Serch hynny, gall osod safonau ymddygiad fod yn heriol mewn perthynas â'r

unigolion hyn oherwydd efallai y bydd rhai ohonynt ymddwyn mewn ffordd nad yw'n dderbyniol neu efallai y byddant wedi'u hymddieithrio o'u hastudiaethau.

Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r dysgwr/prentis trwy:

- gynnwys y cwricwlwm, er mwyn hybu hunan-barch a hunan-gymhelliant
- ethos y coleg, sydd yn:
  - hyrwyddo amgylchedd positif, cefnogol a diogel
  - gwneud i'r dysgwr deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi (gweler adran 2, Atal)
- rhoi llawlyfrau dysgwyr a chyflogwyr i brentisiaid sy'n manylu'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys llinellau cymorth cyfrinachol a sut i godi ac adrodd pryderon.
- polisi ymddygiad y coleg, sy'n cefnogi dysgwyr agored i niwed yn y coleg. Bydd holl staff y coleg yn cytuno ar ddull cyson sy'n ffocysu ar ganlyniad ymddygiadol person ifanc neu oedolyn ifanc agored i niwed ond nad yw'n effeithio'n negyddol ar ymdeimlad yr unigolyn o hunanwerth. Bydd y coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod beth sy'n dderbyniol o ran ymddygiad derbyniol ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei werthfawrogi. Bydd y coleg hefyd yn sicrhau na fydd y dysgwr yn cael bai am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.
- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr megis swyddogion awdurdod lleol - er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r gwasanaeth Lles Addysg - gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc a gwasanaethau eiriolaeth
- cadw cofnodion a rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn syth os bydd pryder gan unrhyw un.
- monitro'r defnydd o TG fel y manylir yn ein Polisi Defnydd Derbyniol o TG.

Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd yn syth ac yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Cyn ymuno, mae cyflogwyr prentisiaeth yn cael eu gwirio fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys fetio cyflogwyr a monitro gwerthusiad iechyd a diogelwch a bod y cyflogwr yn deall eu dyletswydd mewn perthynas â chyflogi'r prentis, diogelu a'r Ddyletswydd Atal. Ceir eu hymrwymiad yn ystod asesiad cychwynnol drwy'r cytundeb prentisiaeth yng Nghymru a'r datganiad ymrwymiad yn Lloegr.

Yn ystod wyth Adolygiad Cynnydd wythnosol gyda'r prentis a'i gyflogwr, mae'r tiwtor/aseswr yn gwirio lles y prentis. Rhoddir gwybod am unrhyw bryderon i reolwyr llinell a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a fydd yn gwneud yr ymchwiliadau angenrheidiol. Mae llawlyfrau i Ddysgwyr a Chyflogwyr yn manylu ar sut i adrodd am bryderon gan gynnwys damweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd i'n Cynghorwr Iechyd a Diogelwch Dysgu Seilliedig ar Waith i ymchwilio iddynt a'u huwchgyfeirio at y llywodraeth ac asiantaethau yn ôl yr angen. Rydym hefyd yn sicrhau trwy wiriadau/archwiliadau bod pob prentis yn:

- Meddu ar gontract cyflogaeth
- Derbyn slipiau cyflog
- cael ei dalu ar ddyddiad penodol
- Cael ei drin yn deg yn y gweithle
- Derbyn y cyfarpar diogelu personol cywir
- Deall y rhwymedigaethau diogelu ac atal a sut i adrodd am bryderon yn anffurfiol ac yn ffurfiol i staff addysgu, hyfforddwy'r dysgwyr a swyddogion diogelu
- Parhau i weithio mewn amgylchedd diogel ac iach trwy ein proses fetio a monitro

Bydd unrhyw brentis sydd rhwng 16 a 18 oed neu'n cael ei ystyried yn agored i niwed yn cael ei adnabod cyn dechrau prentisiaeth. Bydd hyn yn llywio unrhyw asesiadau risg amgen a threfniadau y bydd angen eu hystyried ar gyfer trefniadau hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

## **5. Gwrth-fwlio**

Mae ein polisi gwrth-fwlio yn ddogfen annibynnol a gellir ei darllen ar y fewnwyd neu ar y we. Mae'r ddogfen yn mynd i'r afael â Herio Bwlio, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan TRhC a'r corff llywodraethu.

## **6. Pobl Ifanc neu Oedolion Agored i Niwed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn ystadegol, plant ac oedolion agored i niwed sy'n fwy tebygol o gael eu cam-drin, ac rydym yn cydnabod hyn. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda myfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol megis anabledd dwys a lluosog, nam ar y synhwyrâu, problemau emosiynol neu ymddygiadol fod yn arbennig o sensitive iarwyddio o gam-drin.

## **7. Atal a Radicaleiddio**

Er bod Atal yn rhan o weithdrefn Diogelu'r Coleg, mae gennym Polisi Atal annibynnol sy'n delio â'r maes hwn ac mae i'w weld ar fewnwyd y staff a gwefan y Coleg.

## 8. Gyda phwy ddylech chi gysylltu â nhw os oes gennych bryderon ynghylch Diogelwch neu Atal?

Os oes gennych bryderon am ddiogelwch plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, cysylltwch â'r swyddog diogelu dynodedig trwy ddefnyddio'r manylion isod. Mae'n hanfodol bod i chi rhoi gwybod ar unwaith i Swyddog Diogelu am unrhyw bryderon.

**Swyddogion Diogelu** (ar gyfer myfyrwyr amser llawn, rhan-amser a phrentisiaid. Oriau agor dydd Llun i ddydd Iau - 8.30-5.00pm, dydd Gwener 8.30-4.30pm)

Ian Billington	<a href="tel:07880089048">07880 089048</a>
Naima Khanom	<a href="tel:07768035787">07768 035787</a>
Vicki Wannell	<a href="tel:07393789238">07393 789238</a>
Ryan McCarley	<a href="tel:07917352153">07917 352153</a>
Cathy Thomas	<a href="tel:07946373455">07946373455</a>
Tamsyn Oates	<a href="tel:07867135815">07867 135815</a>
Mo Qasim	<a href="tel:07917136101">07917136101</a>

**Prif Swyddog Diogelu** (gellir cysylltu â'r prif swyddog ar ôl oriau gwaith, os yw hi ar gael)

Anne Pitman [01792 284169](tel:01792284169)

**Arweinwyr Diogelu Dynodedig Dysgu Seiliedig ar Waith/Prentisiaethau** (gellir cysylltu â nhw y tu allan i oriau swyddfa, os ydynt ar gael)

Adele Bubear [adele.bubear@gcs.ac.uk](mailto:adele.bubear@gcs.ac.uk) [07798 822867](tel:07798822867)  
Anne Pitman [anne.pitman@gcs.ac.uk](mailto:anne.pitman@gcs.ac.uk) [01792 284169](tel:01792284169)

### **Ni allaf gysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig**

Os na fedrwyd gysylltu â'r SDD ac yn peoni bod person ifanc neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o niwed sylweddol, neu os yw bywyd yr unigolyn mewn perygl, ffoniwch 999 yn syth.

Os nad ydynt mewn perygl uniongyrchol, ond bod gennych bryderon, cysylltwch â'ch rheolwr llinell, a fydd yn cysylltu ag Anne Pitman i rhoi gwybod iddi am y digwyddiad. Rhwch cymaint o fanylion â phosib a gadewch rhif ffôn, fel y gall gysylltu â chi ynghylch eich pryderon a gwneud atgyfeiriad priodol.

Gallwch hefyd gysylltu â Lisa Collins, Swyddog Diogelu Ysgolion Abertawe. Os yw'r plentyn yn un o'n myfyrwyr darpariaeth 14-16, e-bostiwch Lisa Collins am gymorth: [Lisa.Collins@swansea.gov.uk](mailto:Lisa.Collins@swansea.gov.uk) neu ffonicwch 07827 822700

Os oes gennych bryderon am aelod staf neu fod honiadau wedi'u gwneud yn erbyn aelod o staff, cysylltwch â Sarah King, Cyfarwyddwr AD

[sarah.king@gcs.ac.uk](mailto:sarah.king@gcs.ac.uk) 284137 neu, Sally Davies, Rheolwr AD  
[sally.davies@gcs.ac.uk](mailto:sally.davies@gcs.ac.uk) 284292

## 9. Dogfennau Cysylltiedig

**Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â'r canlynol:**

Polisi Defnydd Derbyniol  
Polisi Atal  
Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr  
Polisi Cyffuriau ac Alcohol Myfyrwyr  
Polisi Gwrth-fwlio Myfyrwyr  
Polisi Cyn-droseddwyr Myfyrwyr  
Protocol Hunan-niweidio Myfyrwyr  
Polisi Chwythu Chwiban Staff  
Gweithdrefnau Disgyblu Staff  
Polisi Addasrwydd i Astudio

Mae polisiau ar gael i'w darllen ar ein gwefan neu ar fewnrwyd y staff

## 11. Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Llofnod:**



**Unigolyn sy'n cymeradwyo'r Polisi:**

Mark Jones, Pennaeth

**Dyddiad: 14 Hydref 2021**



## Atodiad 1

### Ffurflen Atgyfeirio Diogelu (GAN GYNNWYS MYFYRWYR 14-16, PRENTISIAID AC OEDOLION AGORED I NIWED)

Dyddiad (heddiw):	
Enw'r person sy'n nodi'r datgeliad:	
Swydd y person sy'n nodi'r datgeliad:	
Enw'r myfyriwr/prentis	
Dyddiad geni'r myfyriwr	
Cwrs:	
Tiwtor/Asesydd:	

Enw'r camdriniwr dan amheuaeth:	
Manylion y camdriniaeth honedig: (gan gynnwys dyddiadau, amser a lleoliad yr achos)	
Manylion pobl eraill neu oedolion agored i niwed eraill a allai fod wedi do di gysylltiad â'r camdriniwr dan amheuaeth: (Enwau a dyddiadau geni)	
Manylion ac oedran pawb arall sy'n byw yn y cartref	
Camau a gymerwyd:	
Llofnod: (Unigolyn Dynodedig)	
Llofnod: (Person sy'n nodi'r datgeliad)	